# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y GRŴP PARTNERIAETH AOHNE GŴYR

## A GYNHALIWYD YN REYNOLDSTON VILLAGE HALL, REYNOLDSTON, GOWER, SWANSEA DYDD LLUN, 26 MEHEFIN 2017 AM 7.00 PM

**YN BRESENNOL:** Bu'r Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| M C Child | J P Curtice | L James |
| A H Stevens | | |

**Yn Cynrychioli Sefydliadau**:

H Osborne — Cyfoeth Naturiol Cymru

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Chris Lindley | Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr |
| Paul Meller | Rheolwr Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd Naturiol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Mike Scott | Swyddog AoHNE Gŵyr |

| | | |
|---|---|---|
| R Button | F McEwen | W Harris |
| S Heard | M Phillips | C Williams |
| G Howe | I Scott | D Thomas |
| S Hill | C Johnson | E Button |
| R Cooper | E Fussell | M Lewis |
| J Davies | M Piercey | P Thornton |
| C Hill | J Piercey | B Parry |
| P Tucker | E Harris | H Jones |
| R Harris | J Probert | P Bowen-Simpkins |
| I Button | A Frank | R Vine |
| S Crocker | D Jeffrey | D Vine |
| M Mead | L Evans | J Mead |
| S Mead | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P R Hood-Williams
Aelodau Cyfetholedig(wyr): R Wright

1 **MUNUD O DDISTAWRWYDD - JOHN BARROW**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth drist John Barrow, cyn-aelod o Fforwm Cefn Gwlad Gŵyr, yn ddiweddar. Hefyd, talodd Roger Button deyrnged ar ran y Grŵp Partneriaeth. Safodd pawb i ddangos parch.

2 **CROESO A CHYFLWYNIADAU.**

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i Neuadd Bentref Reynoldston a dechrau'r cyfarfod.

3 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd buddiannau.

4 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod Grŵp Llywio AoHNE Gŵyr a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2017 fel cofnod cywir.

5 **MATERION SY'N CODI O'R COFNODION.**

**Derbyniad ffonau symudol a band llydan ym mhenrhyn Gŵyr**

Dywedodd Roger Button fod derbyniad ffonau symudol yn dal i fod yn wael iawn ym mhenrhyn Gŵyr, a bod hynny'n cael effaith andwyol ar yr apiau ffonau symudol ar gyfer cerdded a phrosiect Tirwedd Gŵyr.

**Llygredd Golau**

Nododd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr, fod trafodaethau'n parhau ag AoHNE eraill a CNC o ran llonyddwch ac awyr dywyll yng Nghymru ar gyfer 2018/19, mater sydd wedi'i gynnwys ym mlaenraglen waith CNC.

6 **CYFLWYNIAD - GWAITH A ROLAU PARTNERIAETH AOHNE GWYR A THÎM AOHNE GWYR.**

Rhoddodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, gyflwyniad ar waith Partneriaeth AoHNE Gŵyr. Amlinellodd ddynodiad AoHNE Gŵyr, rôl Partneriaeth AoHNE Gŵyr a gwaith Tîm AoHNE yn Ninas a Sir Abertawe.

7 **CYFLWYNIAD - CYRFF PARTNER.**

**Cymdeithas Gŵyr**

Rhoddodd Gordon Howe, Cymdeithas Gŵyr, adroddiad am waith y gymdeithas, yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cyfeiriodd at grantiau a'r gefnogaeth ariannol a roddwyd gan y gymdeithas yn ystod y flwyddyn flaenorol, gan dynnu sylw at rôl bwysig y gymdeithas ym mhenrhyn Gŵyr.

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Rhoddodd Hamish Osborne, Arweinydd Tîm Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn Abertawe, gyflwyniad ar waith diweddaraf CNC ym mhenrhyn Gŵyr. Rhoddodd fanylion ynghylch rheoli CNC yn Abertawe a Chwm Tawe; diben y sefydliad; y

stadau coetir, y gwarchodfeydd natur a chadwraeth y safleoedd a warchodir y mae'n eu rheoli ym mhenrhyn Gŵyr.

8 **CYFLWYNIAD - TIRWEDDAU'R DYFODOL: CYFLAWNI DROS GYMRU.**

Rhoddodd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr, gyflwyniad ynghylch yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig Cymru. Cyfeiriodd at gynnwys yr adroddiad Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru, sef yr Adolygiad o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru. Tynnodd sylw hefyd at y goblygiadau i AoHNE Gŵyr.

9 **ADOLYGIAD O GYNLLUN GWEITHREDU AOHNE 2015-2018.**

Rhoddodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, adolygiad o Gynllun Gweithredu'r AoHNE 2015-2018. Manylodd ar waith y 2 flynedd flaenorol a'r gwaith arfaethedig tan 2018. Cyfeiriodd at y prosiectau a oedd wedi'u cefnogi ac a oedd wedi derbyn cymorth ariannol.

10 **ETHOL DEG AELOD GRWP LLYWIO O'R ENWEBIADAU A DDERBYNIWYD.**

Esboniodd y Cadeirydd fod 13 o enwebiadau wedi'u derbyn am 10 o swyddi gwag fel aelodau o Grŵp Llywio'r Bartneriaeth. Felly, roedd angen etholiad.

Dosbarthwyd papurau pleidleisio i bawb a oedd yn bresennol.

**PENDERFYNWYD** ethol y canlynol i Grŵp Llywio Partneriaeth AoHNE Gŵyr am gyfnod o ddwy flynedd, yn unol â'r cylch gorchwyl:

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Roger Button | Unigolyn |
| Rod Cooper | Unigolyn |
| Stephen Crocker | Twristiaeth Bae Abertawe |
| Stephen Heard | Clwb Marchogaeth Gŵyr/Cyngor Cymuned Porth Einon |
| Sue Hill | Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent |
| Gordon Howe | Cymdeithas Gŵyr |
| Michael Lewis | Unigol |
| Barbara Parry | Unigol |
| Paul Tucker | Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf |
| Deborah Vine | Unigol |

11 **ETHOL IS-GADEIRYDD Y GRWP LLYWIO AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2017-2018.**

**PENDERFYNWYD** ethol Stephen Heard fel Is-gadeirydd y Grŵp Llywio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2017/18.

12 **PANEL GRANTIAU'R GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY (CDC) (SY'N CYNNWYS CADEIRYDD Y GRWP LLYWIO, 3 CHYNGHORYDD A 4 AELOD ARALL).**

Gohiriwyd yr eitem tan gyfarfod nesaf y Grŵp Llywio ar 25 Medi 2017.

13 **PANEL APELIADAU GRANTIAU'R GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY (CDC) (SY'N CYNNWYS IS-GADEIRYDD Y GRWP LLYWIO, 1 CYNGHORYDD A 6 AELOD ARALL NAD YDYNT EISOES AR BANEL GRANTIAU'R CDC).**

Gohiriwyd yr eitem tan gyfarfod nesaf y Grŵp Llywio ar 25 Medi 2017.

14 **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD. (10 MUNUD).**

**Parcio – Cefn Bryn**

Gofynnodd Ian Button gwestiwn am barcio ger Maen Ceti yng Nghefn Bryn. Yn y cyfarfod, trafodwyd pwnc parcio ar Gefn Bryn, effaith parcio ar bentref Reynoldston a'r opsiynau posib a oedd ar gael. Nodwyd bod yr ardal dan reolaeth Cyngor Cymuned Llanrhidian Isaf.

Datganodd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr, y gofynnwyd i'r Bartneriaeth Datblygu Gwledig archwilio'r broblem yn fanwl a bod angen mabwysiadu ymagwedd bartneriaeth.

**PENDERFYNWYD** cyflwyno adroddiad diweddaru yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

**Cefn Bryn – Dŵr ar y Ffordd**

Gwnaeth Paul Tucker ymholiad am ddŵr ar y ffordd yng Nghefn Bryn a dywedodd y byddai'n beryglus yn y gaeaf. Ychwanegodd fod angen glanhau'r draeniau'n rheolaidd. Ychwanegodd Roger Button fod y dŵr wedi peri i'r ffordd gwympo o'r blaen.

**Adeiladau/Henebion**

Gofynnodd Mike Lewis gwestiynau am berchnogaeth Goleudy Whitford a'i gyflwr, yr adeiladau hanesyddol ar Burry Holmes a chyflwr Castell Pennard. Esboniwyd mai Cyngor Sir Gâr biau Goleudy Whitford a chydnabuwyd bod angen cyllid i wneud gwaith ar yr adeilad. Yn ogystal, datganwyd bod CADW yn hollol ymwybodol o'r problemau adeileddol yng Nghastell Pennard ac archwiliwyd y safle.

15 **DYDDIADAU CYFARFODYDD 2017/2018 I GAEL EU CYNNAL AM 7PM FEL A GANLYN**

**NODWYD** y cynhelir cyfarfodydd 2017/2018 am 7pm ar y dyddiadau canlynol:

- 25 Medi 2017;
- 11 Rhagfyr 2018;

- 26 Mawrth 2018.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.56 pm

**CADEIRYDD**